| Swydd Ddisgrifiad: Darlithydd Trydanol/Ynni Adnewyddadwy/Peirianneg Pwer | |
|---|---|
| **Maes Rhaglen / Adran** | Canolfan Isadeliedd, Sgiliau a Thechnoleg |
| **Prif Safle** | CIST Llangefni |
| **Cyflog** | £32,303.72 - £49,934.18 y flwyddyn<br>Pwynt MG1 – UG3 |
| **Y Math o Gontract** | Parhaol |
| **Telerau'r Contract** | Llawn Amser |
| **Yn atebol i** | Rheolwr Maes Rhaglen CIST |

**Pwrpas y Swydd**

Mae'r *Ganolfan Isadeiledd, Sgiliau a Thechnoleg* (CIST) yn ganolfan hyfforddi masnachol arloesol wedi'i lleoli yn Llangefni, sy'n cynnig portffolio unigryw a chynyddol o gyrsiau mewn seilwaith, ôl-osod, ynni adnewyddadwy, a hyfforddiant llinellau trydan uwchben. Fel arweinydd mewn hyfforddiant i'r sectorau adeiladu ac ynni, mae CIST wedi ymrwymo i roi'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar ddysgwyr i ffynnu mewn diwydiannau sy'n datblygu'n gyflym tuag at gynaliadwyedd ac effeithlonrwydd ynni.

Byddwch yn rhan o dîm arloesol a dyfodol cyffrous yn CIST. Mae ein cyfleusterau blaengar yn cynnwys *Canolfan Hyfforddi ynghylch Datgarboneiddio - Tŷ Gwyrddfai* - gyda chynlluniau i ehangu i gyfleusterau newydd sbon o'r radd flaenaf yn Llanelwy. Mae campws Llangefni a Thŷ Gwyrddfai yn cynnig amgylchedd dysgu deinamig a chynhwysol, sy'n cynnwys:

- Prif ganolfan hyfforddi fodern gyda phedair ystafell hyfforddi helaeth, cyfleusterau lles, pedair ystafell cynnal profion, ac ystafell benodol yn cynnwys yr adnoddau Technoleg Gwybodaeth i gynnal profion y Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu (CSCS)
- Canolfan hyfforddi arbenigol yn maes sgaffaldiau, a chynigir hyfforddiant fforch godi, codi a chario deunyddiau a hyfforddiant ynghylch ynni adnewyddadwy, gyda thair ystafell hyfforddi ychwanegol
- Canolfan Hyfforddi ac Asesu Nwy ACS
- Canolfan Hyfforddi ym maes Technoleg Ddi-Garbon sy'n canolbwyntio ar systemau ynni adnewyddadwy blaengar, technegau adeiladu cynaliadwy, ac ôl-osod i sicrhau effeithlonrwydd ynni
- Ardaloedd awyr agored helaeth ar gyfer hyfforddiant Gweithredu Peiriannau, Canfod Tanddaearol, Gweithio ar Uchder, a **gweithio ar linellau trydan uwchben** gan roi profiad ymarferol gydag offer go iawn

Rydym yn chwilio am unigolyn brwdfrydig, blaengar, i ymuno â'n tîm arbenigol. Yn y swydd hon, byddwch yn cael y cyfle i gyflwyno hyfforddiant o'r safon uchaf, gan rymuso dysgwyr i ragori mewn meysydd galw uchel fel ôl-osod, ynni adnewyddadwy, peirianneg pŵer, a gweithio ar linellau trydan uwchben. Byddwch yn allweddol wrth siapio gweithlu'r dyfodol, gan gefnogi dysgwyr wrth iddynt ennill y sgiliau ymarferol a damcaniaethol sydd eu hangen i lwyddo yn y sectorau hollbwysig hyn, yn enwedig wrth i'r Deyrnas Unedig weithio tuag at ei thargedau datgarboneiddio.

Os ydych chi'n angerddol am addysg, cynaliadwyedd ac arloesi, ac eisiau bod yn rhan o ganolfan ragoriaeth a gydnabyddir yn genedlaethol, rydym yn eich annog i wneud cais. Gyda'n gilydd, byddwn yn sbarduno cynnydd ac yn cynorthwyo i lunio'r genhedlaeth nesaf o weithwyr proffesiynol medrus.

**Pwrpas y Swydd:**

Pwrpas swydd *Darlithydd mewn Peirianneg Drydanol, Ynni Adnewyddadwy, a Phŵer* yn y *Ganolfan Isadeiledd, Sgiliau a Thechnoleg* (CIST) yw cyflwyno hyfforddiant damcaniaethol ac ymarferol o ansawdd uchel yn unol â safonau cyfredol y diwydiant, gan gynnwys rheoliadau Trydanol a'r Cynllun Ardystio Microgynhyrchu (MCS). Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn trefnu ac yn cynnal sesiynau yn yr ystafell ddosbarth yn ymdrin â phynciau allweddol megis gosodiadau trydanol, technolegau ynni adnewyddadwy, egwyddorion peirianneg pŵer, a meysydd hyfforddi arbenigol megis **Gweithio ar linellau trydan uwchben** ac **Uniadau Foltedd Isel**.

Yn ogystal â chyflwyno'r theori yn yr ystafell ddosbarth, bydd y darlithydd yn arwain hyfforddiant ymarferol mewn amgylchedd gweithdy ac yn yr awyr agored, gan gynnwys ardaloedd efelychu'r byd go iawn ar gyfer **gweithio ar linellau trydan uwchben, cynhyrchu pŵer, a gosod systemau ynni adnewyddadwy**. Bydd y dull cynhwysfawr hwn yn rhoi'r sgiliau sydd eu hangen ar ddysgwyr i fodloni gofynion cynyddol y sectorau seilwaith ac ynni.

Mae'r swydd hefyd yn cynnwys asesu gwaith dysgwyr, yn yr ystafell ddosbarth a thrwy asesiadau ar y safle yn y gweithleoedd, gan sicrhau bod myfyrwyr yn dangos cymhwysedd wrth ddefnyddio cymwysiadau'r byd go iawn. Mae cydweithio'n agos â Sefydliadau Dyfarnu yn hanfodol i gynnal ansawdd uchel deilliannau dysgwyr, gan sicrhau bod pob asesiad yn bodloni safonau'r diwydiant.

A bydd y darlithydd yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf mewn peirianneg drydanol, ynni adnewyddadwy, a pheirianneg pŵer, gan ymgorffori datblygiadau newydd yn eu haddysgu i sicrhau bod dysgwyr yn barod ar gyfer yr heriau a'r cyfleoedd esblygol yn y sector, yn enwedig mewn arferion cynaliadwy ac ynni effeithlon.

## Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

**A: Asesu Anghenion Y Dysgwyr**

A1. Darparu cyngor ac arweiniad priodol i ddarpar fyfyrwyr

A2. Asesu profiadau dysgu a chyflawniadau blaenorol dysgwyr mewn perthynas â rhaglen ddysgu ddynodedig

A3. Cynnal cyfweliadau â darpar fyfyrwyr a gweinyddu unrhyw brofion dethol sydd eu hangen

A4. Ymgymryd ag asesiadau cychwynnol a nodi unrhyw anghenion dysgu neu'r angen am gefnogaeth arbennig.

A5. Sicrhau bod dysgwyr yn cofrestru gyda'r coleg a chyrff dyfarnu

**B: Cynllunio a Pharatoi Rhaglenni Dysgu ac Addysgu**

B1. Nodi canlyniadau dysgu a pharatoi Cynlluniau Gwaith a Chynlluniau Gwersi ar gyfer rhaglenni perthnasol yn unol â gofynion cyrff dyfarnu a chanllawiau'r Grŵp.

B2. Sicrhau bod sgiliau sylfaenol (hanfodol) yn cael eu hintegreiddio i'r rhaglen ddysgu fel y bo'r angen

B3. Cynllunio ar gyfer anghenion ieithyddol y grŵp myfyrwyr er mwyn caniatáu i fyfyrwyr ddefnyddio'r iaith a ddewisant (Cymraeg neu Saesneg) lle bynnag y bo modd

B4. Dethol amrywiaeth o ddulliau dysgu i ddiwallu anghenion myfyrwyr

**C: Rheoli'r Broses Ddysgu**

C1. Sefydlu a chynnal amgylchedd dysgu ddiogel ac effeithiol

C2. Datblygu a defnyddio amrywiaeth o dechnegau dysgu ac addysgu er mwyn annog dysgu annibynnol a hwyluso dysgu trwy brofiadau

C3. Cynhyrchu a defnyddio deunyddiau dysgu priodol gan ddefnyddio technoleg gwybodaeth dysgu lle y bo modd

C4. Nodi a mynd i'r afael â diffyg cymhelliant a herio ymddygiad amhriodol

C5. Gosod tasgau heriol a chytuno ar dargedau a nodau unigol gyda dysgwyr lle bo hynny'n briodol

C6. Strwythuro sesiynau'n briodol i gadw at yr amserlen a chynnal diddordeb

C7. Cynnal a hybu cyfathrebu effeithiol gyda, a rhwng, yr holl ddysgwyr, gan ddefnyddio technoleg briodol lle bo hynny'n berthnasol

C8. Cynnal perthynas waith effeithiol o fewn timau'r rhaglen

C9. Sefydlu cysylltiadau priodol a chysylltu â chyrff allanol yn ôl y galw

C10. Trefnu ac arsylwi lleoliadau profiad gwaith i ddysgwyr gan ddilyn y trefniadau a gytunwyd arnynt, yn cynnwys ymweliadau a gweithgareddau preswyl lle bo hynny'n briodol

C11. Cydymffurfio â systemau gwybodaeth coleg a sicrhau bod cydweithwyr yn cael yr holl wybodaeth angenrheidiol ar yr amser cywir ac ar y ffurf sefydliadol y cytunwyd arno

C12. Cyfrannu at holl systemau sicrhau ansawdd perthnasol y coleg; gweithdrefnau rheoli mewnol ac allanol

C13. Cymryd rhan mewn prosesau hunanasesu yn cynnwys gwerthuso modiwlau a chyrsiau

**D: Darparu cefnogaeth i ddysgwyr**

D1. Cyfrannu at lunio gweithdrefnau cynefino a chyflwyno dysgwyr yn effeithiol i'r sefydliad

D2. Sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o wasanaethau cefnogi a chynghori priodol ac yn gwybod sut i'w defnyddio

D3. Cynnal systemau tiwtora yn unol â chanllawiau'r coleg

D4. Darparu cyngor, arweiniad, trefniadau cynefino a chefnogaeth academaidd

**E: Asesu'r deilliannau dysgu a chyflawniadau'r dysgwyr**

E1. Cynllunio strategaethau asesu priodol ar gyfer rhaglenni dysgu yn unol â gofynion cyrff dyfarnu a rhoi gwybod i fyfyrwyr amdanynt
E2. Defnyddio amrywiaeth o ddulliau asesu priodol i gynnal asesiadau teg a dibynadwy
E3. Sicrhau bod dysgwyr yn cael adborth ysgrifenedig a llafar, sy'n glir ac yn adeiladol, o fewn cyfnod priodol
E4. Cadw cofnodion asesu a darparu gwybodaeth i randdeiliaid perthnasol e.e. cydweithwyr, rhieni, cyflogwyr, cyrff dyfarnu

**F: Ystyried a chloriannu eich perfformiad eich hun a chynllunio at y dyfodol**

F1. Cloriannu eich ymarfer eich hun mewn perthynas ag anghenion y dysgwyr a'r rhaglen
F2. Defnyddio adborth o systemau sicrhau ansawdd i wella eich ymarfer eich hun
F3. Sicrhau eich bod yn ymwybodol o ddatblygiadau cyfredol yn eich maes arbenigol
F4. Cymryd rhan yn system Adolygu Perfformiad y coleg er mwyn cloriannu eich perfformiad ac adnabod anghenion datblygu
F5. Cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol parhaus perthnasol

**G: Cyfrifoldebau Cyffredinol**

G1. Cydymffurfio â pholisi Diogelwch, Iechyd a'r Amgylchedd Diwygiedig y Grŵp er mwyn cynnal amgylchedd gwaith ac amgylchedd addysgu diogel
G2. Cyflawni unrhyw ddyletswyddau priodol eraill sy'n ymwneud â'ch rôl a'ch swydd ar gais eich rheolwr atebol, Uwch Gyfarwyddwr neu'r Prif Weithredwr

**H: Cyfrifoldebau Cyffredinol**

H1. Cydymffurfio â pholisi Diogelwch, Iechyd a'r Amgylchedd Diwygiedig y Grŵp er mwyn cynnal amgylchedd gwaith ac amgylchedd addysgu diogel

H2. Cyflawni unrhyw ddyletswyddau priodol eraill sy'n ymwneud â'ch rôl a'ch swydd ar gais eich rheolwr atebol, Uwch Gyfarwyddwr neu'r Prif Weithredwr

| Manyleb Deiliad y Swydd | Hanfodol | Dymunol | Dull Asesu |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau** | | | |
| Lefel 3 neu gymhwyster cyfatebol mewn maes perthnasol. | X | | Ffurflen Gais |
| Cymhwyster addysgu neu barodrwydd i ennill y cymhwyster cyn pen 4 blynedd | X | | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Gradd uwch mewn maes perthnasol. | | X | Ffurflen Gais |
| Bod yn berchen ar Gymhwyster Cefnogi Sgiliau Hanfodol Lefel 3 /bod yn barod i'w ennill. | | X | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Cymwysterau asesydd a/neu ddilyswr mewnol a/neu barodrwydd i ennill y cymhwyster o fewn 2 mlynedd i'r penodiad | X | | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | | | |
| Y gallu i uniaethu â gwahanol ddysgwyr, ac ymrwymiad i gyfle cyfartal | X | | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Profiad o weithio mewn amgylchedd Addysg Bellach/Uwch. | | X | Ffurflen Gais |
| Profiad o weithio mewn amgylchedd Gosodiadau Trydanol/Ynni Adnewyddadwy neu weithio o fewn Peirianneg Pwer | X | | Ffurflen Gais / Cyfweliad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwybodaeth a phrofiad o ddefnyddio technoleg ddysgu. | | X | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Sgiliau a Phriodweddau** | | | |
| Y gallu i ddefnyddio systemau a rhaglenni TG. | X | | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Sgiliau trefnu, sgiliau rhyngbersonol a sgiliau cyfathrebu da. | X | | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Hyblygrwydd a sgiliau gweithio mewn tîm. | X | | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Gofynion Ychwanegol** | | | |
| Gallu teithio yn ôl yr angen i gyflawni gofynion y rôl | X | | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Ymrwymiadau i werthoedd y Grŵp. | X | | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Y gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg | X | | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Sgiliau Cymraeg** | | | |
| Ceir manylion llawn am lefelau sgiliau Cymraeg yn: https://www.gllm.ac.uk/cy/jobs | | | |
| **Dealltwriaeth o'r Gymraeg** | Canolradd | | Cyfweliad |
| **Yn siarad Cymraeg** | Canolradd | | Cyfweliad |
| **Llythrennedd Cymraeg** | Canolradd | | Cyfweliad |
| **Noder os gwelwch yn dda -** fe roddir ystyriaeth i ymgeiswyr sy'n nodi eu bod o fewn 1 lefel i fodloni'r gofyniad sgiliau Cymraeg gofynnol ar gyfer y swydd ar yr amod y byddai unrhyw gynnig o gyflogaeth yn cynnwys cytundeb dan gontract i ddatblygu eu Sgiliau Cymraeg. | | | |

**Gofynion Gorfodol**

Yn unol â Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg 2015 mae'n ofyniad statudol bod unigolion yn cofrestru â'r Cyngor cyn dechrau gweithio yn y Grŵp.

Mae'r Grŵp wedi ymrwymo i ddiogelu ac amddiffyn Iechyd a Lles plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed. Yn unol â Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974, bydd gofyn i unigolion gael gwiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i gadarnhau eu bod yn addas i weithio mewn amgylchedd addysgol. Bydd tystysgrifau GDG trwy wasanaeth diweddaru'r GDG yn cael eu derbyn yn unol â'r canllawiau a geir yn - https://www.gov.uk/dbs-update-service.

O dan adran 8 Deddf Mewnfudo a Lloches 1986, mae'n ofyniad cyfreithiol ar unigolion i ddarparu tystiolaeth ddogfennol sy'n cadarnhau bod ganddynt hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig.

| **Crynodeb o'r Telerau a'r Amodau** | |
|---|---|
| **Oriau Gwaith** | 37 awr yr wythnos<br>835 awr o amser addysgu blynyddol – 24 i 26 awr yr wythnos.<br>Hyd at 5 awr yr wythnos o weithio'r safle gyda chytundeb y rheolwr. |
| **Wythnosau gwaith** | 52 wythnos y flwyddyn |
| **Gwyliau Blynyddol** | • 46 diwrnod o wyliau yn flynyddol<br>• Pob gwyliau cyhoeddus a arsylwir fel arfer, yn cael eu pennu'n flynyddol.<br>• Hyd at 5 diwrnod o ddiwrnodau cau effeithlonrwydd y flwyddyn, a bennir yn flynyddol.<br>• Bydd contractau rhan amser yn derbyn hawl pro rata i'r uchod. |

| | |
|---|---|
| | • Bydd contractau Amser Tymor yn derbyn hawl pro rata i'r uchod a delir fel rhan o'r cyflog blynyddol. |
| **Pensiwn** | Cynllun Pensiwn Athrawon (www.teacherspensions.co.uk) |
| **Teithio** | Caiff y trefniadau ar gyfer ad-dalu treuliau i aelodau staff sy'n mynd i gostau ychwanegol wrth wneud gwaith swyddogol i Grŵp Llandrillo Menai eu hegluro yn y Polisi Teithio, Cynhaliaeth ac Adleoli.<br><br>Yn dilyn eu penodiad, bydd gofyn i ymgeiswyr llwyddiannus gwblhau Ffurflen Asesu Gyrwyr ar gyfer Sgrinio Iechyd (os yw'n berthnasol). I gadarnhau bod ganddynt yswiriant at "Ddibenion Busnes", mae'n rhaid i bob gweithiwr sy'n hawlio treuliau am ddefnyddio eu ceir personol gyflwyno copïau o'u tystysgrifau yswiriant i Adran Gyllid y Grŵp bob blwyddyn. |
| **Sgrinio Iechyd** | Bydd gofyn i ymgeiswyr llwyddiannus gwblhau holiadur iechyd ac efallai y bydd gofyn iddynt gael archwiliad meddygol.<br><br>Rhaid cael y sgriniadau iechyd a ganlyn ar gyfer y swydd hon: (dileu)<br>● Gweithrediad yr Ysgyfaint (Sbirometreg)<br>● Clyw (Awdioleg)<br>● Dirgryniad Braich a Llaw (HAV) a Dirgryniad y Corff Cyfan (WBV)<br>● Croen |

| Job description: Lecturer in Electrical/Renewable and Power Engineering | |
|---|---|
| **Programme area / Department** | Centre for Infrastructure, Skills & Technology |
| **Main site** | CIST Llangefni |
| **Salary and hours** | £32,303.72 - £49,934.18 per annum<br>Point MG1 – UG3 |
| **Contract type** | Permanent |
| **Contract terms** | Full Time |
| **Reporting to** | Programme Area Manager CIST |

**Job purpose**

The *Centre for Infrastructure, Skills and Technology* (CIST) is a pioneering commercial training hub located in Llangefni, offering a unique and ever-growing portfolio of courses in infrastructure, retrofit, renewable energy, and overhead line training. As a leader in training for the construction and energy sectors, CIST is committed to equipping learners with the skills and knowledge needed to thrive in industries that are rapidly advancing towards sustainability and energy efficiency.

At CIST, you'll be part of an exciting future and innovative team. Our cutting-edge facilities include *Ty Gwyrddfai Decarbonisation Training Hub*, with plans to expand into brand-new state-of-the-art facilities in St Asaph. Both the Llangefni campus and Ty Gwyrddfai provide a dynamic, immersive learning environment, featuring:

- A modern main training centre with four spacious training rooms, welfare facilities, four testing rooms, and a dedicated IT CSCS testing room
- A specialist scaffolding training centre, also offering forklift, materials handling, and renewables training, with three additional training rooms
- The ACS Gas Training and Assessment Centre
- A Zero-Carbon Training Centre focusing on cutting-edge renewable energy systems, sustainable construction techniques, and retrofitting for energy efficiency
- Extensive outdoor areas for Plant Operations, Underground Detection, Working at Height, and **Overhead Linesperson** training, providing hands-on experience with real-world equipment

We are looking for an enthusiastic, forward-thinking individual to join our expert team. In this role, you will have the opportunity to deliver top-quality training, empowering learners to excel in high-demand areas such as retrofit, renewable energy, power engineering, and overhead line work. You'll be instrumental in shaping the future workforce, supporting learners as they gain the practical and theoretical skills needed to succeed in these critical sectors, especially as the UK works toward its decarbonisation goals.

If you're passionate about education, sustainability, and innovation, and want to be part of a nationally recognised centre of excellence, we encourage you to apply. Together, we'll drive progress and help shape the next generation of skilled professionals.

**Job Purpose:**

The role of a *Lecturer in Electrical, Renewable Energy, and Power Engineering* at the *Centre for Infrastructure, Skills and Technology* (CIST) is to deliver high-quality theoretical and practical instruction in line with current industry standards, including Electrical and MCS (Microgeneration Certification Scheme) regulations. The successful candidate will organise and conduct classroom-based sessions covering key

topics such as electrical installations, renewable energy technologies, power engineering principles, and specialised training areas such as **Overhead Linesperson** and **Low Voltage Jointing**.

In addition to classroom-based theory, the lecturer will lead practical, hands-on training in both workshop and outdoor environments, including real-world simulation areas for **overhead line work, power generation, and renewable energy system installations**. This comprehensive approach will equip learners with the skills required to meet the growing demands of the infrastructure and energy sectors.

The role also includes assessing learners' work, both in classroom settings and through on-site assessments at workplaces, ensuring students demonstrate competency in real-world applications. Close collaboration with Awarding Organisations is essential to maintain the high quality of learner outcomes, ensuring all assessments meet industry standards.

Furthermore, the lecturer will actively stay abreast of advancements in electrical, renewable energy, and power engineering, incorporating new developments into their teaching to ensure learners are prepared for the evolving challenges and opportunities in the sector, particularly in sustainable and energy-efficient practices.

## Main duties and responsibilities

**A: Assessing Learners' Needs**

- A1. Provide prospective students with appropriate advice and guidance
- A2. Assess learners' previous learning experiences and achievements in relation to the identified learning programme
- A3. Conduct interviews with prospective students and administer any necessary selection tests
- A4. Undertake initial assessments and identify any special learning or support Needs
- A5. Ensure learners are registered with the college and with awarding bodies

**B: Planning and Preparing Teaching and Learning Programmes**

- B1. Identify learning outcomes and prepare Schemes of Work and Lesson Plans for relevant programmes in line with awarding body requirements and Grŵp guidelines
- B2. Ensure that literacy and numeracy / essential skills are integrated into the learning programme as required
- B3. Plan for the linguistic needs of the student group in order to allow students to use their language of choice (Welsh or English) wherever possible
- B4. Select a range of learning methods to meet student needs

**C: Managing the Learning Process**

- C1. Establish and maintain a safe and effective learning environment
- C2. Develop and use a range of teaching and learning techniques to encourage individual learning and facilitate learning though experience
- C3. Produce and use appropriate learning materials using information learning technology where possible
- C4. Identify and address poor motivation and challenge inappropriate behaviour
- C5. Set challenging tasks and agree individual goals and targets with learners as appropriate
- C6. Structure sessions appropriately to provide pace and maintain interest

Grŵp Llandrillo Menai

C7. Maintain and encourage effective communication with and between all learners, using appropriate technology where relevant
C8. Maintain effective working relationships within programme teams
C9. Establish appropriate links and liaise with external bodies as required
C10. Arrange and supervise work experience placements for learners following agreed procedures including visits and residential activity where appropriate
C11. Comply with college management information systems and ensure that colleagues are given all necessary information at the correct time in the agreed organisational format
C12. Contribute to all relevant college quality assurance systems; internal and external control procedures;
C13. Participate in self-assessment processes including the evaluation of modules and courses

**D: Providing learners with support**

D1. Contribute to the design of induction procedures and induct learners effectively into the organisation
D2. Ensure that learners are aware of and have access to appropriate support and guidance services
D3. Maintain tutorial systems in line with college guidelines
D4. Provide advice, guidance, induction, pastoral and academic support and signpost to other suitable support avenues where appropriate

**E: Assessing the outcomes of learning and learners' achievements**

E1. Plan appropriate assessment strategies for learning programmes in line with awarding body requirements and communicate these to students
E2. Use a range of appropriate assessment methods to conduct fair and reliable assessments
E3. Ensure that learners are provided with clear and constructive written and oral feedback within an appropriate timescale
E4. Maintain assessment records and provide information to relevant stakeholders e.g. colleagues, parents, employers, awarding bodies

**F: Reflecting upon and evaluating one's own performance and planning future practice**

F1. Evaluate your own practice in relation to learners' and programme needs
F2. Use feedback from quality assurance systems to improve your own practice
F3. Keep up to date with current development within your own specialist field
F4. Participate in the college Performance Review system in order to evaluate own performance and identify development needs
F5. Engage in relevant continuous professional development

**G: General Responsibilities**

G1. Comply with the Grŵp's Safety, Health & Environment Policy in order to maintain a safe working and learning environment
G2. Undertake any other relevant duties appropriate to your role and position which may be required by the line manager, Executive Director or the Chief Executive.

| | |
|---|---|
| **H:** | **General Responsibilities** |
| H1. | Comply with the Grŵp's Safety, Health & Environment Policy in order to maintain a safe working and learning environment |
| H2. | Undertake any other relevant duties appropriate to your role and position which may be required by the line manager, Executive Director or the Chief Executive. |

| Person specification | Essential | Desirable | Assessment method |
|---|---|---|---|
| **Qualifications** | | | |
| Level 3 or equivalent qualification in a related area. | X | | Application form |
| Teaching qualification or willingness to gain within 4 years of appointment | X | | Application form / Interview |
| A higher education or equivalent in a related area | | X | Application form |
| In possession of or willingness to obtain the Level 3 Supporting Essential Skills Qualification. | X | | Application form / Interview |
| Assessor and/or Internal Verifier qualifications or willingness to gain within 2 years of appointment | X | | Application form / Interview |
| **Knowledge and experience** | | | |
| Empathy with diverse learners and commitment to equal opportunities. | X | | Application form / Interview |
| Experience of working within an FE/HE environment. | | X | Application form |
| Experience of working within a Electrical Installation/Renewable Technology/ Power Engineering environment | X | | Application form / Interview |
| Knowledge and experience of the use of learning technology. | | X | Application form / Interview |
| **Skills and attributes** | | | |
| Ability to use IT systems and applications. | X | | Application form / Interview |
| Good organisation, interpersonal and communication skills. | X | | Application form / Interview |
| Flexibility and team working skills. | X | | Application form / Interview |
| **Additional requirements** | | | |
| Able to travel as required to fulfil the requirements of the role. | X | | Application form / Interview |
| Commitments to the Grŵp values. | X | | Application form / Interview |
| Ability to teach through the medium of Welsh and English. | X | | Application form / Interview |

| **Welsh language skills** | | |
|---|---|---|
| Full details of the Welsh skill levels can be found at: https://www.gllm.ac.uk/jobs | | |
| **Welsh Understanding** | Intermediate | Interview |
| **Welsh Speaking** | Intermediate | Interview |
| **Welsh Literacy** | Intermediate | Interview |
| **Please note:** consideration will be given to applicants who indicate that they are within 1 level of meeting the required Welsh skills requirement for the post on the proviso that any offer of employment would include a contractual agreement to develop their Welsh Skills. | | |

| **Mandatory requirements** |
|---|
| In accordance with the Education Workforce Council (EWC) Regulations 2015 it is a statutory requirement that individuals register with the EWC prior to commencing employment with the Grŵp.<br><br>The Grŵp is committed to Safeguarding and protecting the Health and Welfare of children, young people and vulnerable adults. Individuals will be required to complete an Enhanced Disclosure with the Disclosure and Barring Service in accordance with the Rehabilitation of Offenders Act 1974 to ascertain their suitability to work in an educational environment. DBS certificates via the DBS update subscription service will be accepted in accordance with guidance provided - https://www.gov.uk/dbs-update-service.<br><br>Under section 8 of the Asylum and Immigration Act 1986 individuals are required by law to provide documentary evidence confirming their eligibility to work in the United Kingdom. |

| **Summary of the terms and conditions** | |
|---|---|
| **Working hours** | 37 hours per week.<br>835 hours annual teaching time – 24 to 26 hours teaching per week.<br>Up to 5 hours per week working of site in agreement with manager. |
| **Working weeks** | 52 weeks per year |
| **Annual leave** | • 46 days leave per annum.<br>• All normally observed public holidays, determined annually.<br>• Up to 5 days efficiency closure days per annum, determined annually.<br>• Part Time contracts will receive a pro rata entitlement to the above.<br>• Term Time contracts will receive a pro rata entitlement to the above paid as part of annual salary. |
| **Pension** | Teachers Pensions Agency (www.teacherspensions.co.uk) |
| **Travel** | Arrangements to reimburse employees who incur additional expense whilst carrying out their official duties on behalf of the Grŵp is outlined in the Travel, Subsistence and Relocation policy.<br><br>Successful applicants will be required to complete a Drivers Assessment Form for Health screening upon appointment (if applicable). Copies of insurance certificates must be provided to the Grŵp Finance department on an annual basis by all employees claiming mileage expenses for using their own car to confirm that “Business Use” insurance is in place. |
| **Health screening** | Successful applicants will be required to complete a health questionnaire and may be asked to attend a medical.<br><br>This post is subject of the following health screening: (delete)<br>● Lung function (Spirometry)<br>● Hearing (Audiology) |

| | |
|---|---|
| | ● Hand Arm Vibration (HAV) and Whole Body Vibration (WBV)<br>● Skin |